

Twristiaeth

www.aber.ac.uk/cy/ibers

NEWYDDION

Hydref 2010

Myfyrwyr y flwyddyn gyntaf ar daith yn Eryri

Yn eu blwyddyn gyntaf, mae myfyrwyr twristiaeth yn mynd ar daith astudio i Eryri. Eleni roedd y daith yn para tridiau, ac arhosodd y grŵp unwaith eto yn Hostel Ieuenctid Rhaeadr Ewynnol ger Betws y Coed. Yr arhosiad cyntaf oedd tref hanesyddol Caernarfon, lle bu'r myfyrwyr yn edrych ar y rhan sydd gan dwristiaeth mewn adfywio trefol. Roedd hyn yn cynnwys ymweliad â datblygiad trawiadol newydd Doc Fictoria. Hefyd, cafodd y grŵp gyfle cyflym i edrych o gwmpas y castell a llyncu rhywbeth i'w fwyta yn un o'r caffis niferus yng nghanol y dref. Yn y prynhawn, arhosodd y grŵp ym Meddgelert am hufen ia a chael cyfle i ymweld â beddrod Gelert.

Aeth yr ail ddiwrnod â'r myfyrwyr i Flaenau Ffestiniog. Eu hymweliad cyntaf oedd i Chwarel ac Amgueddfa Lechi Llechwedd lle cawsant gyfle i fynd dan ddaear i weld pa fath o fywyd oedd un y chwarelwr pan oedd y chwarel lechi yn dal ar waith. Yn nes ymlaen, bu'r myfyrwyr yn gwrando ar sgwrs gan gynrychiolydd o 'Blaenau Ymlaen' ynglŷn â rôl twristiaeth yn adfywiad y dref honno. Profodd Blaenau Ffestiniog yn astudiaeth achos hynod o ddiddorol oherwydd i'r lle gael ei

Myfyrwyr y flwyddyn gyntaf y tu allan i Gastell Caernarfon



hepgor yn wreiddiol o ffiniau Parc Cenedlaethol Eryri, penderfyniad sydd bellach yn y broses o gael ei adolygu gyda'r posibilrwydd o'i wrthdroi. Gwawriodd y diwrnod olaf yn sych a braf i'r

IBERS

Sefydliad y Gwyddorau Biolegol,
Amgylcheddol a Gwledig

Rhestr Cysiau

BSc

Rheoli Twristiaeth
Twristiaeth gyda Ffrangeg
Twristiaeth gyda Sbaeneg
Hamdden Cefn Gwlad a Thwristiaeth

Gradd Sylfaen

Hamdden Cefn Gwlad a Thwristiaeth

Diddordeb?

Ffoniwch Fay Hollick ar **01970 624471**
am fanylion pellach neu ewch i'r wefan
www.aber.ac.uk/cy/ibers

Yr ail flwyddyn yn godro defaid, yn cael eu hymlid gan Popeye ac yn dod i gysylltiad agos iawn â folcano

Bu myfyrwyr yr ail flwyddyn yn ymweld yn ddiweddar ag ynys Malta ar y daith astudio Twristiaeth Ryngwladol ar Waith. Cychwynnodd y profiad cyn iddynt hyd yn oed adael Prydain gyda thaith dywysedig ddiddorol iawn o gwmpas maes awyr Manceinion a ddangosodd yn amlwg y newidiadau a ddaeth i ran y diwydiant yn sgil awyrennau cost isel.

A hwythau yn aros yn Bugibba, tref dwristaidd ddatblygedig iawn ar arfordir gogleddol Malta, cafodd y myfyrwyr gipolwg buddiol ar effeithiau'r diwydiant twristiaeth tra roedd eu hymweliad ag ynys gyfagos Gozo yn brofiad cwbl gwrthgyferbyniol. Nid yw Gozo wedi'i datblygu i'r un graddau â Malta a gwahanol iawn yw'r diwydiant twristiaeth yno. Bu'r grŵp



Myfyrwyr yr ail flwyddyn yn ymweld â Phentref Popeye ym Malta

yn ymweld â dau ffermwr a oedd wedi mentro i dwristiaeth ffermio: un yn canolbwyntio ar werthu cynnyrch organig a'r llall yn caniatáu i westeion wneud pob math o weithgareddau fferm, megis cneifio a godro defaid.

Un o'r atyniadau twristaidd mwyaf anarferol ar ynys Malta yw 'Pentref Popeye', y set ffilmio lle

gwnaed y ffilm y bu Robin Williams yn serennu ynddi yn 1980. Cafodd y grŵp amser diddorol a buont yn cymryd rhan mewn rhai ymarferion gwaith tîm defnyddiol, ac yn un ohonynt cafodd rhai aelodau o'r grŵp eu hymlid gan Popeye ei hun! Cyrhaeddwyd y penllanw wrth i'r grŵp wneud eu ffilm 'Popeye' eu hunain, gydag un o'n myfyrwyr yn chwarae'r brif ran.

Cyn gadael Malta, cafodd y myfyrwyr gyfle i roi rhywfaint o'u hyfforddiant sgiliau ymchwil ar waith, a oedd yn ddefnyddiol iawn ar gyfer y traethodau arfaethedig. Ymchwiliwyd i ystod eang o bynciau gan gynnwys y defnydd o draethau, twristiaeth ieuenctid, hen fysiau eiconig Malta a datblygiad arfaethedig acwariwm. Doedd cael folcano yng Ngwlad yr Iâ yn ffrwydro ddim yn rhan o'r cynllun ac fe fu posibilrwydd y byddent yn gorfod aros ym Malta ychydig yn hwy na'r disgwyl. Trwy lwc, agorodd y gofod awyr Ewropeaidd y diwrnod roeddent i fod i adael, a rhoddodd hyn eto gipolwg ardderchog i'r myfyrwyr ar drefniadaeth rheoli argyfwng yn y diwydiant twristiaeth.



Marchnata Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

Yn gynharach eleni aeth grŵp o chwech o fyfyrwyr y drydedd flwyddyn sy'n dilyn ein cwrs Rheoli Twristiaeth ar daith diwrnod i Ardd Fotaneg Genedlaethol

Cymru, y tu allan i Gaerfyrddin. Mae'r Ardd yn ganolfan o arwyddocâd byd-eang ar gyfer garddwriaeth, cadwraeth, gwyddoniaeth, addysg, hamdden a'r celfyddydau.

Pwrpas yr ymweliad oedd galluogi'r myfyrwyr i ddysgu'n uniongyrchol am yr hyn sy'n mynd ymlaen ar y safle, sut mae'r Ardd yn cael ei marchnata a'i rôl fel prif atyniad ymwelwyr yn yr ardal. Daeth Mr David Hardy, y Cyfarwyddwr Marchnata, i gwrdd â'r myfyrwyr a rhoddodd sgwrs ddadlennol iddynt gan ganolbwyntio'n benodol ar faterion yn ymwneud â rheoli cyfryngau. Cafodd y myfyrwyr hefyd gyfle i weld beth sydd gan yr Ardd i'w gynnig i ymwelwyr.

Clywodd y myfyrwyr am yr ymdrechion a wneir i gysylltu'r safle â'r Warchodfa Natur Genedlaethol gerllaw, yn ogystal â chynlluniau i agor mwy o'r ystâd i ymwelwyr. Penllanw hyn fydd Rhaeadr Angof Pont Felin Gât, coetir hudol â rhaeadrau, pontydd cerrig a chreiriau eraill o barc dŵr a luniwyd ar Ystâd Middleton yn y cyfnod Sioraidd.

Athro twristiaeth o Seland Newydd yn ymweld ag Aberystwyth

Ym mis Mehefin cawsom ymweliad gan yr Athro Harvey Perkins o Gyfadran Amgylchedd, Cymdeithas a Dylunio Prifysgol Lincoln, Seland Newydd i gyflwyno seminar yn dwyn y teitl "Rural change and influences of tourism and recreation in Central Otago, New Zealand". Mae gan Harvey ddiddordebau ymchwil ym maes eang trawsffurfio trefol a gwledig, a chynhaliwyd y seminar ar y cyd â'r Sefydliad Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear Aberystwyth.



Yr Athro Harvey Perkins

Myfyrwr twristiaeth yn astudio heicwyr Taiwan

Cyflwynodd y myfyrwr PhD o Taiwan, Ming-Feng Huang a ymunodd â ni yn 2009, ei ganfyddiadau ymchwil cyntaf yng Nghynhadledd Daearyddiaeth Cyngor Prifysgol Cymru ym mis Mai. Pwnc Ming yw 'Heicio'r 100 mynydd: sut mae unigolion yn datblygu o fod yn ddechreuwyd i arbenigwyr yng ngweithgaredd heicio mynydd yn Taiwan'. Bydd yn dychwelyd i Taiwan dros yr haf i gynnal rhai cyfweiliadau rhagarweiniol â chyfranogwyr ac asiantaethau heicio mynydd.

Beth yw ôl-bwyd (*foodprint*) twristiaeth?

Mae Dr Brian Garrod, Uwch-ddarlithydd mewn Twristiaeth, newydd gyhoeddi papur ymchwil yn y cyfnodolyn, Tourism Management, yn dwyn y teitl 'Food Management in Tourism: Reducing Tourism's Carbon Foodprint'. Mae'r papur yn adolygu ôl-troed carbon yr amrywiol fwydydd a ddefnyddir gan ddarparwyr gwasanaeth bwyd yn y diwydiant twristiaeth gan amlinellu nifer o argymhellion ar sut i leihau'r ôl-bwyd hwn trwy fabwysiadu strategaethau prynu, paratoi a chyflwyno. Ysgrifennwyd y papur ar y cyd â Stefan Gössling o Brifysgol Lund yn Sweden, Carlo Aall a John Hille o Sefydliad Ymchwil Gorllewin Norwy a Paul Peeters o Brifysgol y Gwyddorau Cymhwysol NHTV Breda yn Yr Iseldiroedd.



Ychydig yn nes a byddech chi'n bryd o fwyd!

Mae Dr Carl Cater, Darlithydd Twristiaeth yn y Sefydliad, wedi cyhoeddi ei bapur "Any closer and you'd be lunch! Interspecies interactions as nature tourism at marine aquaria" yn y 'Journal of Ecotourism'. Mae'r papur yn edrych

ar boblogrwydd rhaglenni nofio-gyda-dolffiniaid sy'n gaeth i acwaria, a chyflwyno fersiynau nofio-gyda-siarcod yn Sea World, Awstralia, o'r lle y daeth yr ysbrydoliaeth am y teitl.

Effaith newid hinsawdd ar economi ymwelwyr â Chymru

Bu Dr Brian Garrod, sy'n uwch-ddarlithydd mewn Twristiaeth yn y Sefydliad, yn rhan o dîm sy'n gweithio ar ran 'Visit Wales' a Chyngor Cefn Gwlad Cymru i ymchwilio i effeithiau posibl newid hinsawdd ar economi ymwelwyr Cymru. Roedd yr astudiaeth yn cynnwys gwaith ar raddfa genedlaethol i asesu effeithiau posibl newid hinsawdd ar y galw sydd ar Gymru fel cyrchfan ymwelwyr, yn ogystal â gwaith ar raddfa leol i asesu goblygiadau newid hinsawdd ar y galw am weithgareddau penodol i ymwelwyr yng Nghymru. Archwiliwyd sefyllfaoedd newid hinsawdd y dyfodol yng nghyd-destun Cymru dros gyfnod canolog a hirach gan ddefnyddio Rhagamcaniadau'r DU 2009 (UKCP09) a hefyd gwnaed astudiaethau achos o leoliadau arfordirol, ucheldir gwledig a lleoliadau trefol. Mae'r adroddiad wedi'i gyhoeddi yn ddiweddar gan Visit Wales, cangen o Lywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygiad, marchnata, a thwristiaeth Cymru.

Twristiaeth yn Aberystwyth ar Facebook

Mae grŵp wedi'i sefydlu ar y wefan rhwydweithio cymdeithasol, Facebook, fel bod pawb sy'n ymwneud â chysiau gradd Twristiaeth yn Aberystwyth – presennol, gorffennol a'r dyfodol – yn gallu cadw mewn cysylltiad â'i gilydd. Mae'r dudalen yn gyfle i staff rannu'r newyddion diweddaraf am yr hyn sy'n digwydd ar y cyrsiau. Gwahoddid myfyrwyr hefyd i bostio eu newyddion a'u safbwyntiau eu hunain. Gellir dod o hyd i'r dudalen ar <http://www.facebook.com/#!/group.php?gid=327087126292>

Newyddion cyn-fyfyrwyr

Roedd staff y Sefydliad wrth eu bodd i dderbyn newyddion oddi wrth Anastasia Mourikis a raddiodd gyda BSc mewn Rheoli Twristiaeth yn 2008. Ar ôl ennill ei gradd, aeth Anastasia ymlaen i astudio gradd mewn Marchnata Uwch yn yr Ysgol Rheolaeth a Busnes yn Aberystwyth gan orffen ym mis Rhagfyr gyda chyfanswm o 71% o farciau am yr elfennau trwy gwrs. Bellach, mae hi wedi cychwyn ar ei PhD yn yr Ysgol Fusnes ac Economeg yn Abertawe, a dyfarnwyd iddi swydd cynorthwydd graddedig amser llawn. Ei phwnc yw marchnata cyrchfan Cymru a rôl 'emosiynau' a 'dylanwadau' ym mhroses pricio'r cof, adeiladu delwedd ganfyddiadol a gwarantu bwriadau ymddygiadol teyrngarwch dilynol.

Myfyrwyr yn cynllunio gwelliannau i Ben Dinas

Yn ddiweddar, cwblhawyd aseiniad diddorol gan fyfyrwyr yr ail flwyddyn sy'n dilyn y modiwl Rheoli Ymwelwyr a oedd yn gofyn iddynt greu cynllun ar sut i wella'r safleoedd twristaidd lleol Pen Dinas a thraeth Tan-y-bwlch. Yn y lle cyntaf, roedd hyn yn golygu cynnal archwiliad o isadeiledd a chyfleusterau ar y safleoedd a chreu cynllun manwl o'r gwelliannau y credent hwy oedd eu hangen. Cwblhawyd eu cynlluniau gydag awgrymiadau ar sut y gellid hyrwyddo'r safleoedd a sut y gellid monitro'r defnydd o'r safleoedd. Roedd hwn yn aseiniad 'ymarferol' iawn a oedd yn eu gorfodi i feddwl am faterion ymarferol twristiaeth megis arwyddbyst, parcio ceir, sbwriel a mynediad ar gyfer pobl ag anableddau.